# SL(6)600 – Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025

## Cefndir a diben

Mae Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2025 (y "**Gorchymyn**") yn gwneud darpariaeth ynghylch y cyfraddau tâl isaf a thelerau ac amodau cyflogaeth eraill ar gyfer gweithwyr amaethyddol.

Mae'r Gorchymyn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024 gyda newidiadau sy'n cynnwys cynyddu'r cyfraddau tâl isaf fesul awr.

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn darparu bod gweithwyr amaethyddol i gael eu cyflogi yn ddarostyngedig i'r telerau a'r amodau sydd wedi'u nodi yn Rhannau 2 i 5 o'r Gorchymyn, ac yn pennu'r graddau a'r categorïau gwahanol o weithiwr amaethyddol.

Mae Rhan 3 yn gwneud darpariaeth ynghylch:

- cyfraddau tâl isaf;
- lwfans gwrthbwyso llety;
- lwfans cŵn;
- lwfans ar alwad;
- lwfans gwaith nos; a
- grantiau geni a mabwysiadu.

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer hawl i gael tâl salwch amaethyddol o dan amgylchiadau sydd wedi'u pennu.

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithwyr amaethyddol i gael amser i ffwrdd, gan gynnwys seibiannau gorffwys, gorffwys dyddiol a chyfnod gorffwys wythnosol. Gwneir darpariaeth hefyd ynghylch blwyddyn gwyliau blynyddol gweithiwr amaethyddol a'i hawl i gael gwyliau blynyddol, tâl gwyliau a thaliad yn lle gwyliau blynyddol. Mae'r Rhan hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch hawl gweithiwr amaethyddol i gael absenoldeb â thâl oherwydd profedigaeth.

Mae Rhan 6 yn cynnwys dirymiad a darpariaeth drosiannol.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Gorchymyn gan Weinidogion Cymru cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd.

Gall y Senedd annilysu'r Gorchymyn o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'i gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y saith pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn y Gorchymyn hwn, defnyddir y termau "*gŵyl gyhoeddus*" a "*gŵyl banc*" yn erthyglau 2 a 36. Nid yw'r termau hyn wedi'u diffinio ac ni roddir ystyr iddynt yn y Gorchymyn hwn.

Rydym yn cydnabod nad yw'r termau hyn wedi'u diffinio'n gyson ym mhob Deddf neu Offeryn Statudol. Er hynny, byddem yn ddiolchgar pe gallem gael cadarnhad fod Llywodraeth Cymru o'r farn bod eu hystyr yn ddigon eglur o'r cyd-destun y'u defnyddir ynddo yn y Gorchymyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Yn erthygl 5(b), mae gwahaniaeth yn y ffordd y mae'r ddarpariaeth wedi'i drafftio o gymharu ag erthyglau 6(a), 7(a) ac 8(a).

Yn erthygl 5(b), cyfeirir at "*prentisiaeth lefel 2* ***<u>sy'n berthnasol</u>*** *i'w rôl mewn amaethyddiaeth*".

Fodd bynnag, yn erthyglau 6(a), 7(a) ac 8(a), mae'r darpariaethau cyfatebol ar gyfer y gwahanol Raddau o weithiwr amaethyddol yn cyfeirio at brentisiaethau gofynnol "***<u>y mae rhaid iddynt fod</u>*** *yn berthnasol i'w rôl mewn amaethyddiaeth*".

Yn wrthrychol, mae hyn yn awgrymu bod mwy o ofyniad cyfreithiol o ran perthnasedd y prentisiaethau yn erthyglau 6(a), 7(a) ac 8(a) o gymharu ag erthygl 5(b).

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio a yw'r gwahaniaethau a nodwyd yn fwriadol.

**3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Mae erthygl 16(5) yn nodi, "***Ni fydd*** *yn ofynnol i'r gweithiwr amaethyddol ad-dalu [...]*".

Mae canllawiau drafftio Llywodraeth Cymru yn dweud y dylai deddfwriaeth osgoi defnyddio "*bydd*" ar gyfer darpariaethau datganiadol ac y dylid defnyddio'r mynegol presennol mewn datganiadau o'r fath (gweler Drafftio Deddfau i Gymru, 3.14(5)).

**4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod y gwaith drafftio yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.**

Diffinnir y term "diwrnodau cymwys" yn erthygl 2(1) ar gyfer y Gorchymyn cyfan. Diffinnir y term hwn hefyd yn erthygl 21(4) gydag ystyr gwahanol, ar wahân at ddibenion erthygl 21.

Ymddengys fod y diffiniad ar wahân o "*diwrnodau cymwys*" yn erthygl 21 yn ddiangen gan na ddefnyddir y term yn unman yn erthygl 21.

Nodwn fod y term wedi'i ddefnyddio yn erthygl 22 o Orchymyn 2024 (y ddarpariaeth gyfatebol i erthygl 21 yng Ngorchymyn 2025) at ddibenion cyfrifo tâl salwch y rhai sydd wedi'u cyflogi am lai nag 8 wythnos. Fodd bynnag, cafodd y ddarpariaeth hon ei hepgor ar gyfer Gorchymyn 2025.

Os yw'r diffiniad ar wahân yn ddiangen ac yn cael ei ddileu o'r herwydd, nodwn y bydd hefyd angen dileu'r geiriad ychwanegol yn erthygl 2(1) (h.y. "*ac eithrio yn erthygl 21 lle y mae diffiniad gwahanol yn gymwys*").

**5. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae erthygl 24 o'r Gorchymyn yn ymdrin â sefyllfa pan fo contract neu brentisiaeth gweithiwr amaethyddol yn dod i ben yn ystod absenoldeb salwch. O dan amgylchiadau o'r fath, mae tâl salwch yn parhau yn unol â darpariaethau erthygl 24 hyd nes i amgylchiadau penodol ddigwydd. Nodir yn erthygl 24(1):

> *[…] os yn ystod cyfnod o absenoldeb salwch, y terfynir naill ai <u>contract gweithiwr amaethyddol neu ei brentisiaeth</u> neu y rhoddir hysbysiad i'r gweithiwr amaethyddol fod naill ai <u>ei gontract neu ei brentisiaeth</u> i gael ei derfynu neu ei therfynu, mae unrhyw hawl sydd gan y gweithiwr amaethyddol i gael tâl salwch amaethyddol yn parhau ar ôl i'r **contract hwnnw** ddod i ben fel pe bai'r gweithiwr amaethyddol yn dal yn cael ei gyflogi gan ei gyflogwr […] (pwyslais wedi'i ychwanegu).*

Ar sail y testun sydd wedi'i danlinellu uchod, rydym ar ddeall y bwriedir i'r darpariaethau yn erthygl 24 fod yn gymwys i weithwyr amaethyddol o dan gontract cyflogaeth, a/neu'r rhai ar brentisiaethau.

Fodd bynnag, yn ein barn ni, mae'r testun "***contract hwnnw***" yn cyflwyno ansicrwydd gan ei fod yn awgrymu nad yw'r darpariaethau ynghylch tâl salwch yn rhychwantu'r rhai sydd ar brentisiaethau. Ymddengys, wrth ddrafftio, fod y term "contract" wedi'i ddefnyddio fel llaw-fer i gwmpasu'r ddau fath o weithiwr, ond mae'r defnydd blaenorol o "*<u>contract</u> gweithiwr amaethyddol*" wedi cyflwyno ansicrwydd.

Mae'r amwysedd hwn hefyd yn digwydd yn erthygl 24(2):

> *Nid oes gan weithiwr amaethyddol y terfynwyd ei <u>**gontract**</u> hawl i gael unrhyw dâl salwch amaethyddol […].*

O ystyried yr amwysedd blaenorol, nid yw'n glir a fwriedir i hyn gynnwys gweithwyr amaethyddol ar brentisiaethau.

## 6. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â’i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Gorchymyn 2025 yn gwneud darpariaeth newydd mewn perthynas â ‘gweithwyr oriau afreolaidd’ neu ‘weithwyr rhan o’r flwyddyn’, fel y diffinnir “irregular hours worker” a “part-year worker” yn rheoliad 15F o Reoliadau Amser Gwaith 1998 (“**Rheoliadau 1998**”).

Yn benodol, mae erthygl 32(5) o’r Gorchymyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyfrifo lwfans gwyliau blynyddol gweithwyr o’r fath. Mae’r lwfans gwyliau blynyddol i’w gyfrifo “*fel canran o’i oriau gwaith gwirioneddol*” yn seiliedig ar fformiwla:

$$\left( \frac{\text{Cyfanswm hawl gwyliau blynyddol mewn wythnosau a ddarperir yn yr Atodlen}}{\text{Wythnosau gwaith sy'n weddill yn y flwyddyn gwyliau blynyddol}} \right) \text{X } 100$$

Mae’r Memorandwm Esboniadol yn dweud bod y “*newidiadau hyn yn seiliedig ar ddiweddariadau i Reoliadau Amser Gwaith 1998*”.

Nodwn fod rheoliad 15B o Reoliadau 1998 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â gwyliau blynyddol ar gyfer gweithwyr penodol sy’n gweithio oriau afreolaidd. Yn gyffredinol, mae gweithwyr o’r fath yn cronni gwyliau yn seiliedig ar 12.07% o’r oriau a weithiwyd o fewn cyfnod tâl.

Nid yw’r cyfrifiad uchod wedi’i gynnwys yn rheoliad 15B o Reoliadau 1998. O’r herwydd, nid yw’n glir o ble y daeth y fformiwla, ac ym mha ffyrdd y mae’r diweddariadau yn “seiliedig ar” Reoliadau 1998.

Nodwn fod gwyliau blynyddol fel arfer yn gymesur â’r oriau a weithiwyd, yn hytrach na’r amser sy’n weddill yn y flwyddyn gwyliau blynyddol. Felly, byddai'n ddefnyddiol deall y rhesymeg dros ddefnyddio’r ‘*wythnosau gwaith sy’n weddill yn y flwyddyn gwyliau blynyddol*’ fel enwadur.

Rydym yn pryderu y gallai hyn arwain at amrywiadau yn yr hawl i wyliau wrth i amser fynd heibio. Er enghraifft, sefyllfa lle mae dau gyflogai sy’n gweithio’r un faint o oriau, ond ar adegau gwahanol o’r flwyddyn, yn cael lwfansau gwyliau gwahanol.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru esbonio o ble y daeth y fformiwla yn erthygl 32(5), ac ymdrin â’n pryderon mewn perthynas ag amrywiadau posibl yn yr hawl i wyliau.

## 7. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn erthygl 35(4), yn y testun Saesneg, mae’r term “*normal weekly pay*” wedi’i ddiffinio ar gyfer yr erthygl honno oherwydd ei fod yn cael ei ddefnyddio ym mharagraff (1) o erthygl 35. Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, mae’r term wedi’i ddiffinio fel “*tâl wythnosol arferol*” yn erthygl 35(4), ond defnyddir term gwahanol, sef “*cyflog wythnosol arferol*”, ym mharagraff

(1) o erthygl 35. Felly, ni fydd i'r term yr un ystyr diffiniedig yn erthygl 35(1) o'r testun Cymraeg.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**8. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud nifer o gywiriadau i wallau hanesyddol a nodwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar *Orchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2024* (O.S. 2024/390 (Cy. 69)).

Rhestrir y diwygiadau penodol ym mharagraff 2 o'r Memorandwm Esboniadol o dan y pennawd '*Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad*'.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r pwyntiau adrodd technegol.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 24 Mawrth 2025 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.